# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) GORCHYMYN 2024

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (a elwir “y Cyngor” o hyn ymlaen) yn arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 33, 35(1) a 124 (1) a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y’i diwygiwyd (“Deddf 1984”): Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) 2013 a’r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984 gan hynny’n gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Yn weithredol o’r dyddiad a bennir yn Erthygl 1 isod, mae’r Gorchmynion hynny fel y’u nodir yn Erthygl 64 isod gan hynny yn cael eu dirymu.

## RHAN 1
## CYFFREDINOL

Cychwyn a Dyfynnu

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y(r) 29 diwrnod o Tachwedd 2024 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024.

2. Gan hynny, corfforir Cynlluniau Oddi ar y Stryd sy’n ffurfio Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn ac sy’n dwyn teitl “Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024” “Cynlluniau Mannau Parcio” gan gynnwys yr allwedd (y “Cynlluniau”) yn y Gorchymyn hwn fel atodlen 3.

3. Mae’r Gorchymyn hwn a’r tair atodlen a gysylltir â hyn yn rhan o’r Gorchymyn wedi eu selio â Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dehongliad

4. Yn y Gorchymyn hwn ac eithrio pan fo’r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i’r ymadroddion a ganlyn yr ystyr a roddir iddynt yn eu tro:

ystyr “Deddf 2004” yw Deddf Rheoli Traffig 2004 (fel y’i diwygiwyd)

ystyr “dull talu cymeradwy arall” yw dull talu a gymeradwyir gan y Cyngor a allai gynnwys, taliadau heb arian, talu dros y ffôn, taliad drwy gerdyn debyd neu gredyd, a hwylusir gan wirio ar y safle neu o bell i gynnwys darllenydd cerdyn neu destun ffôn symudol neu alwad ffôn, cerdyn gostyngol neu drwydded parcio rhithwir;

ystyr “unigolyn awdurdodedig” yw unrhyw un sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor; at ddibenion unrhyw swyddogaeth o dan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn

ystyr “cerbyd awdurdodedig” yw cerbyd a bennir yng Ngholofn 3 o Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

ystyr “diwrnodau codi tâl”, yw’r dyddiau hynny sydd fel y nodir ym mhob man parcio yn y drefn honno.

ystyr “cyfnod codi tâl”, yw holl ddiwrnodau codi tâl y cyfnod fel y nodir ym mhob man parcio ac yn Atodlenni 1 a 2 i’r Gorchymyn hwn fel y mae’n amrywio o bryd i’w gilydd.

ystyr “Cyngor” yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu ei awdurdod olynol.

ystyr “tâl dyddiol” yw’r tâl a osodir gan y Cyngor am barcio mewn man parcio ar unrhyw un diwrnod ac am gyfnod penodol o amser fel y nodir yng nghyfradd y taliadau a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn neu mewn hysbysiad amrywio ac fel y’i hysbysebir yn y man parcio;

mae i “berson anabl” yr un ystyr ag a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1786 (Cy.123)) fel y’u diwygiwyd;

mae i “fathodyn person anabl” yr un ystyr ag a roddir yn Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000 (O.S. 2000/1786 (Cy.123)) fel y’u diwygiwyd;

ystyr “cerbyd pobl anabl” yw cerbyd sy’n arddangos yn gyfreithlon yn y safle perthnasol fathodyn pobl anabl dilys;

ystyr “arddangos” mewn cysylltiad â bathodyn person anabl yw ei arddangos yn unol â Rhan III o Reoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000 (O.S. 2000/1786 (Cy.123)) fel y’u diwygiwyd a gellir dehongli arddangos ac arddangoswyd yn unol â hynny;

ystyr “gyrrwr” yw’r unigolyn sy’n gyrru’r cerbyd ar yr adeg pryd y cafodd ei adael yn y man parcio.

mae “beic modur trydan” yn golygu beic modur sy’n cael ei bweru gan drydan yn unig ac sy’n cael ei wefru gan ffynhonnell allanol.

ystyr “cilfach gwefru beiciau trydan” yw cilfach barcio sydd wedi ei marcio a’i harwyddo ar gyfer defnyddio beic trydan yn unig tra bod y beic hwnnw’n cael ei wefru drwy bwynt gwefru beiciau trydan.

ystyr “pwynt gwefru beiciau trydan” yw uned bwrpasol a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru beiciau trydan.

ystyr “cerbyd trydan” yw
(i) cerbyd sy’n cael ei bweru gan drydan yn unig. Mae’r cerbyd yn cael ei wefru â ffynhonnell pŵer allanol ac yn ymgorffori brecio adfywiol. neu
(II) cerbyd sy’n cyfuno batri, modur gyriant trydan a pheiriant tanio mewnol a’r gallu i wefru’r batri o ffynhonnell pŵer allanol. Gellir gyrru’r cerbyd â’r peiriant tanio mewnol, y modur gyrru trydan, neu’r ddau gyda’i gilydd.

ystyr “cilfach gwefru cerbydau trydan” yw cilfach barcio sydd wedi ei marcio a’i harwyddo ar gyfer defnyddio cerbyd trydan yn unig tra bod y cerbyd hwnnw’n cael ei wefru drwy bwynt gwefru cerbydau trydan.

ystyr “pwynt gwefru cerbydau trydan” yw uned bwrpasol a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

ystyr “deddfiad” yw unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus, yn gyffredinol neu’n lleol, ac mae’n cynnwys unrhyw orchymyn, rheol is-ddeddf, rheoleiddiad, cynllun neu offeryn arall sydd mewn grym yn rhinwedd deddfiad;

“amser terfyn” yw’r amser a nodir ar y tocyn Talu ac Arddangos, neu’r amser a nodir wrth ddefnyddio dull talu cymeradwy arall ac mae’n rhaid i’r cerbyd adael y man parcio cyn yr amser hwn.

mae “trwydded parcio Halo” yn golygu unrhyw fath o drwydded neu drwydded parcio rithwir o fath a dyluniad a gyhoeddir gan Halo at ddiben awdurdodi parcio ym maes parcio y Ganolfan Hamdden, Pen-y-bont ar Ogwr.

mae “trwydded parcio Staff Halo” yn golygu unrhyw fath o drwydded neu drwydded parcio rithwir o fath a dyluniad a gyhoeddir gan Halo at ddiben awdurdodi staff i barcio ym maes parcio y Ganolfan Hamdden, Pen-y-bont ar Ogwr.

ystyr “cerbyd nwyddau ysgafn” yw cerbyd a adeiledir neu a addesir i’w ddefnyddio ar gyfer cludo nwyddau neu faich unrhyw ddisgrifiad, nad yw ei uchder cyffredinol yn fwy na 1.85 metr ac nad yw’r pwysau gweili yn fwy na 2540 cilogram ac nad yw’n tynnu ôl-gerbyd;

ystyr “beic modur” yw cerbyd sy’n cael ei yrru’n fecanyddol â llai na phedair olwyn a bernir bod y term beic modur yn cyfeirio at y termau beic modur unigol a beic modur gydag ystlysgar.

ystyr “beic modur gydag ystlysgar” yw cerbyd sy’n cael ei yrru’n fecanyddol nad yw’n feic modur unigol.

mae i “gar modur” yr ystyr a roddir i “motor car” yn adran 136(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (nad yw’n gerbyd nwyddau nac yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus) ac nid yw’n tynnu ôl-gerbyd.

ystyr “perchennog” mewn cysylltiad â cherbyd yw’r unigolyn a gofnodir fel y ceidwad cofrestredig gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau ar y dyddiad y cafodd y cerbyd ei barcio yn y man parcio dan sylw.

mae “parcio” ac “wedi parcio” yn cyfeirio at stopio cerbyd a hwnnw’n aros yn ddisymud am beth amser p’un a yw’r gyrrwr yn dal yn y cerbyd ai peidio, a bernir bod cerbyd wedi ei barcio am unrhyw gyfnod yn yr un man parcio neu gilfan barcio (yn ôl y digwydd) os bydd unrhyw ran ohono/i o dan y cerbyd neu lwyth y cerbyd (os oes) p’un a yw’r cerbyd yn cael ei symud yn ystod y cyfnod hwnnw ai peidio;

ystyr “parcio a ffonio” yw dull o dalu’r tâl parcio sy’n cynnwys cofrestru taliad dros y ffôn neu fodd electronig ac, y tro cyntaf, cofrestru rhif cofrestru perthnasol y cerbyd, lleoliad y man parcio, manylion cerdyn credyd neu ddebyd neu unrhyw fanylion eraill fel y bo’n ofynnol gan y Cyngor o bryd i’w gilydd a dderbynnir gan y Cyngor fel dull talu dilys ar gyfer yr amser perthnasol y defnyddir y man parcio;

ystyr “cilfach barcio” yw ardal man parcio, a ddarperir ar gyfer gadael cerbyd dosbarth a bennir ac a nodir gan farciau ar wyneb y man parcio neu fel y nodir yn unigol neu a nodir fel arall gan arwyddion yn y man parcio.

mae “trwydded barcio” yn golygu unrhyw fath o drwydded neu drwydded parcio rithwir o fath a dyluniad a gyhoeddir gan y Cyngor at ddiben awdurdodi parcio.

ystyr “man parcio” yw darn o dir a ddangosir ar y cynlluniau yn Atodlen 3 ac fel y nodir yn Atodlenni 1 a 2 a ddarperir gan y Cyngor yn unol ag Adran 32 neu 35 o Ddeddf 1984 at ddibenion parcio cerbydau ac nad yw wedi cau (yn rhannol nac yn gyfan) gan hysbysiad a godir arno gan awdurdod y Cyngor.

ystyr “tocyn talu ac arddangos” yw tocyn a roddir gan beiriant tocynnau a leolir yn y man parcio lle mae’r cerbyd wedi ei barcio neu a gyflwynir gan unigolyn a enwebwyd gan y Cyngor wrth dalu tâl ac mae’n ddilys am gyfnod parcio fel y’i hysbysebir yn y man parcio hwnnw ac fel y nodir yn Atodlenni 1 a 2 i’r

Gorchymyn hwn fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd ac mae'n rhaid ei arddangos ar y cerbyd yn y safle perthnasol.

ystyr "Tâl Cosb" yw tâl a bennir gan y Cyngor o dan Adran 77 o ran 6 ac atodlen 9 o Ddeddf 2004, y mae'n rhaid ei dalu i'r Cyngor ar ôl i Hysbysiad Tâl Cosb gael ei gyflwyno ac o fewn y cyfnod a hysbysir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb, gan ddechrau ar y dyddiad pan gyflwynir yr hysbysiad hwnnw.

ystyr "hysbysiad tâl cosb" yw hysbysiad a ddosberthir neu a gyflwynir gan unigolyn a awdurdodir gan y Cyngor yn unol â darpariaethau rhan 6 o Ddeddf 2004.

ystyr "cynlluniau" yw'r cynlluniau yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac sy'n nodi'r mannau parcio y mae'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

ystyr "safle perthnasol" yw

(a) mewn cysylltiad â cherbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl dilys –

(i) yn achos cerbyd sydd â borden flaen neu banel ffasgia gosod, mae'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod Rhan 1 (blaen y bathodyn), yn ddarllenadwy i'r tu allan i'r cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes ganddo forden flaen neu banel ffasgia gosod, arddangosir y bathodyn mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod Rhan 1 y bathodyn yn ddarllenadwy i'r tu allan i'r cerbyd.

(b) mewn cysylltiad â cherbyd sy'n arddangos tocyn talu ac arddangos neu drwydded barcio –

(i) arddangosir y tocyn neu'r drwydded ar wyneb mewnol y sgrîn wynt neu mewn safle amlwg fel ei bod yn wynebu ymlaen ac y gellir ei gweld a'i darllen yn rhwydd o flaen neu ochr y cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes ganddo sgrîn wynt tryloyw gosod, mae'r tocyn neu'r drwydded yn cael ei harddangos ar flaen y cerbyd, ac mae'n wynebu ymlaen a gellir ei gweld yn amlwg; neu

ystyr “tocyn tymor” yw trwydded neu drwydded rithwir a gyflwynir gan y Cyngor, yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn, i unigolyn er mwyn parcio cerbyd yn y mannau parcio cyfatebol a enwir yn yr Atodlenni i’r gorchymyn hwn.

ystyr “beic modur unigol” yw cerbyd sy’n cael ei yrru’n fecanyddol sydd â llai na phedair olwyn ac nid oes ganddo ystlysgar.

ystyr “peiriant tocynnau” yw cyfarpar o fath a dyluniad a gymeradwyir gan y Gweinidog priodol at ddibenion Deddf 1984, sef cyfarpar sydd wedi ei gynllunio i nodi’r amser â chloc ac i ddosbarthu tocynnau parcio sy’n dangos bod taliad wedi ei wneud o swm neu am y cyfnod a nodir arno ac sy’n nodi’r dyddiad a, naill ai amser taliad o’r fath, neu amser terfyn y cyfnod parcio y gwnaed taliad ar ei gyfer;

ystyr “ôl-gerbyd” yw atodiad sydd ag olwynion nad yw’n cael ei bweru, sydd ynghlwm wrth y cerbyd pan fo’n cael ei barcio neu sydd mewn cilfach gyfagos ac mae plât cofrestru y cerbyd ynghlwm wrtho, ac mae iddo yr ystyr a roddir i “trailer” yn adran 136 o Ddeddf 1984.

mae “cerbyd” yn cynnwys unrhyw gar modur, beic modur, car modur trydan neu feic modur trydan neu gerbyd modur ac ôl-gerbyd arall sy’n cael ei yrru’n fecanyddol.

ystyr “trwydded parcio rithwir” yw cofnod electronig o docyn parcio, trwydded barcio neu oddefeb a gyflwynir ac a gadarnheir gan y Cyngor neu Halo i esemptio cerbyd rhag cyfyngiad neu i wneud taliad heblaw ar y safle a gwmpesir yn narpariaethau y Gorchymyn hwn, o dan y telerau sy’n berthnasol ar yr adeg pryd y’i cyflwynir. Gellir cael trwydded parcio rhithwir gan unrhyw un o’r dulliau a ddarperir o bryd i’w gilydd gan y Cyngor neu Halo ac, i fod yn ddilys, mae’n rhaid ei chofrestru ar gyfrif mewn cronfa ddata electronig a gymeradwyir gan y Cyngor gydag arwydd bod y drwydded wedi ei chyhoeddi a’i dilysu yn unol â gweithdrefnau y Cyngor.

5. Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn gofyn fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl sydd wedi ei rhifo fel cyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Atodlen yn gyfeiriad at Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw ddeddfiad yn y Gorchymyn hwn yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, fel y'i cymhwyswyd, fel y'i cydgrynhowyd, fel y'i hailddeddfwyd gan, neu fel pe byddai mewn grym yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

7. Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol gynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb ac mae'n rhaid i eiriau sy'n dynodi'r bobl gynnwys naill ai rhywedd, cyrff corfforaethol, cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.

8. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n gymwys ar gyfer Dehongli Deddf Seneddol.

## RHAN 2
## DYNODI A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO

Dynodiad

9. Gellir defnyddio pob ardal o dir a nodir fel y'u dangosir ar y cynlluniau yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a restrir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn, yn amodol ar ddarpariaethau y Gorchymyn hwn, fel lle i barcio cerbydau sydd o ddosbarthiadau o'r fath, mewn safleoedd o'r fath, ar ddiwrnodau o'r fath, yn ystod oriau o'r fath, am gyfnod o'r fath ac ar ôl talu taliadau o'r fath fel y'u hysbysebir ym mhob man parcio ac fel y'u nodir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn (fel y maent yn amrywio o bryd i'w gilydd). Er mwyn osgoi amheuaeth, cwmpesir yr ardal o dir llawn a ddynodir yn fan parcio ar y cynlluniau yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn gan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn.

Dosbarth a safle y cerbyd

10. Pan, drwy rybudd, ac yn nhermau y Gorchymyn hwn, fod man parcio, neu unrhyw gilfach barcio yn y man parcio yn cael ei ddisgrifio fel un sydd ar gael i barcio cerbydau o ddosbarth penodedig neu gerbydau mewn lleoliad penodol, ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio yn y man parcio hwnnw nac mewn unrhyw gilfach barcio yn y man parcio,
   (i) oni bai ei fod o'r dosbarth penodedig.
   (ii) sydd wedi ei barcio y tu hwnt i farciau y gilfach barcio
   (iii) mewn safle ac eithrio yr hyn a nodir; neu
   (iv) at ddiben heblaw y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn hwn.

Dosbarthiadau o gerbydau

11. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn cilfach barcio oni bai ei fod yn gerbyd modur, yn feic modur, yn gerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl dilys mewn safle perthnasol, neu ddosbarth a ragnodir yn benodol yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn neu fel yr hysbysebir mewn man parcio.

Safle y cerbyd

12. Os yw cilfachau parcio wedi eu marcio mewn man parcio, rhaid i yrrwr cerbyd sicrhau nad yw'n cael ei barcio y tu hwnt i farciau y gilfach barcio ac ni fydd yn caniatáu iddo aros yn y man parcio hwnnw oni bai ei fod mewn safle o'r fath.

13. Os nad yw cilfachau parcio wedi eu marcio mewn man parcio, bydd gyrrwr cerbyd yn sicrhau ei fod mewn safle fel nad yw'n rhwystro cerbydau eraill rhag defnyddio'r man parcio, y llif rhydd o draffig sy'n cylchredeg yn y man parcio na mynedfeydd nag allanfeydd y man parcio. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r gyrrwr gadw at unrhyw gyfarwyddiadau gan swyddog awdurdodedig.

Cilfachau parcio ar gyfer pobl anabl

14. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn cilfach barcio sydd wedi ei marcio ar gyfer pobl anabl oni bai bod y cerbyd yn dangos bathodyn person anabl dilys yn y safle perthnasol ac yn syth cyn neu'n syth ar ôl y weithred o barcio mae'r cerbyd wedi neu ar fin cael ei ddefnyddio gan y person/pobl y cyflwynwyd y bathodyn person anabl iddynt.

Trwydded Parcio Halo a pharcio â Thrwydded Staff Halo.

15. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd barcio mewn man parcio a ddarperir ar gyfer deiliaid trwydded Halo neu ddeiliaid trwydded staff Halo barcio oni bai bod y cerbyd yn arddangos trwydded ddilys ar gyfer yr amser hwnnw a'r man parcio hwnnw neu fod ganddo drwydded parcio rhithwir Halo dilys neu drwydded parcio rhithwir dilys ar gyfer staff Halo.

Cilfachau gwefru ar gyfer beiciau modur trydan

16. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i feic modur gael ei barcio mewn ardal sydd wedi ei marcio fel cilfach parcio beiciau modur trydan oni bai bod y beic modur yn feic modur trydan sydd wedi ei gysylltu â phwynt gwefru beic modur trydan drwy lîd cysylltu at ddiben ailwefru batris y beic modur trydan a rhaid iddo fod yn cael ei wefru.

Cilfachau gwefru cerbydau trydan

17. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn ardal sydd wedi ei marcio fel cilfach parcio cerbydau trydan oni bai bod y cerbyd yn gerbyd trydan sydd wedi ei gysylltu â phwynt gwefru cerbyd trydan drwy lîd cysylltu at ddiben ailwefru batris y cerbyd trydan a rhaid iddo fod yn cael ei wefru.

Trwydded Barcio

18. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd barcio mewn man parcio a ddarperir ar gyfer deiliaid trwydded oni bai bod y cerbyd yn arddangos trwydded ddilys ar gyfer yr amser hwnnw a'r man parcio hwnnw neu fod ganddo drwydded parcio rhithwir dilys

Cilfachau parcio beiciau modur

19. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd barcio mewn cilfach barcio sydd wedi ei marcio ar gyfer beiciau modur oni bai bod y cerbyd yn feic modur.

Oriau gweithredu a'r cyfnod aros hwyaf

20. Pan ddisgrifir y man parcio, yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ac fel yr hysbysebir ar y safle yn y man parcio neu mewn unrhyw gilfach bario yn y man parcio, fel un sy'n weithredol ar ddiwrnodau penodedig neu am gyfnod aros hwyaf, ni fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i gerbyd gael ei barcio yn y man parcio hwnnw nac mewn unrhyw gilfach barcio yn y man parcio ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod oriau o'r fath, am unrhyw gyfnod heblaw y rhai a nodir nac am gyfnod sy'n hirach na'r rhai a nodir.

<u>Cyfnod dim dychwelyd</u>

21. Pan ddisgrifir man parcio yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ac fel y'i harddangosir ar y safle mewn man parcio fel un sydd â chyfnod pan na chaiff cerbyd ddychwelyd i'r man parcio, ni fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i gerbyd gael ei barcio eto yn y man parcio hwnnw ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod oriau o'r fath pan fo'r cerbyd wedi ei wahardd rhag aros yn y man parcio.

<u>Y pŵer i gau neu atal mannau parcio</u>

22. Ni fydd dim yn y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor drwy rybudd, arwydd neu rwystr a arddangosir neu a godir mewn man parcio:

(i) rhag cau man parcio nac unrhyw ran ohono am unrhyw gyfnod; a/neu

(ii) rhag neilltuo man parcio nac unrhyw ran neu rannau ohono ar bob diwrnod neu ar ddiwrnodau penodol neu yn ystod rhannau penodol o ddyddiau i'w defnyddio gan gerbydau neu sefydliadau penodol yn unig.

23. Gyda hynny, bydd unrhyw un sy'n cau neu'n atal y defnydd o fan parcio neu unrhyw ran ohono yn gosod hysbysiad neu arwydd traffig yn nodi bod y man parcio hwnnw neu'r rhan honno ohono wedi cau neu fod y defnydd ohoni wedi ei atal a bod parcio cerbydau wedi ei wahardd, neu'n achosi i arwydd o'r fath gael ei osod, yn neu wrth ymyl y man parcio hwnnw neu'r rhan honno ohono.

24. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn man parcio nac unrhyw ran ohono yn ystod cyfnodau o'r fath fel bod y man parcio neu'r

rhan honno ohono ar gau neu fod y defnydd ohoni yn cael ei atal nac yn ystod unrhyw gyfnod pan fo, yn neu wrth ei ymyl, hysbysiad neu arwydd traffig yn nodi ei bod wedi cau neu'r ataliad a osodwyd gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor.

Gwerthu Nwyddau

25. Ni fydd neb mewn man parcio heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Cyngor, yn defnyddio cerbyd, mewn cysylltiad â gwerthu unrhyw nwydd, gan gynnwys y cerbyd ei hun, i neb yn y man parcio neu'n agos ato, nac mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig llogi sgìl neu wasanaethau mewn unrhyw gapasiti arall.

Parcio â'r modur yn rhedeg

26. Ni fydd neb mewn man parcio yn gadael y modur i redeg pan fo'r cerbyd yn y man parcio ac ni fydd yn dechrau'r modur oni bai ei fod am newid safle y cerbyd yn y man parcio neu adael y man parcio.

Parcio gan achosi rhwystr

27. Ni fydd neb mewn man parcio yn parcio'r cerbyd yn y fath fodd neu mewn man lle mae'n achosi rhwystr i unrhyw ddefnyddwyr eraill sy'n defnyddio'r lle parcio.

## RHAN 3
## TALIADAU AM BARCIO

Taliad

28. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei barcio mewn man parcio heb drefnu i'r tâl dyddiol (os oes) gael ei dalu yn unol â graddfa'r taliadau a nodir yn Atodlen 2 neu mewn hysbysiad amrywio ac fel y'i

hysbysebir yn y man parcio. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn disgrifio'r taliadau a'r ffioedd sy'n berthnasol wrth wneud y gorchymyn hwn.

Dull talu

29. Bydd y taliadau dyddiol y cyfeirir atynt yn yr Erthygl flaenorol yn daladwy yn y modd a nodir yn yr Erthygl ganlynol ac fel y'u hysbysebir yn y man parcio hwnnw.

Mannau parcio talu ac arddangos

30. Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am gerbyd yn gwneud yr hyn a ganlyn yn syth ar ôl parcio'r cerbyd mewn cilfach barcio

(i) trefnu i brynu tocyn talu ac arddangos o beiriant tocynnau a leolir yn y man parcio hwnnw ar lefel y tâl ac ar gyfer y cyfnod y mae ei angen yn unol â graddfa y taliadau a nodir yn Atodlen 2 neu mewn hysbysiad amrywio ac fel y'i hysbysebir yn y man parcio hwnnw. neu

(ii) gwneud trefniadau i dalu'r tâl dyddiol drwy fodd talu cymeradwy arall ar lefel y tâl dyddiol ac am y cyfnod y mae ei angen yn unol â graddfa y taliadau a nodir yn Atodlen 2 neu mewn hysbysiad amrywio ac fel y'i hysbysebir yn y man parcio hwnnw.

Arddangos tocyn

31. Ac eithrio ar gyfer talu drwy fodd talu cymeradwy arall, pan fo cerbyd wedi ei barcio mewn man parcio talu ac arddangos, bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am y cerbyd yn sicrhau'r hyn a ganlyn:

(i) y cafwyd tocyn talu ac arddangos dilys i gwmpasu'r cyfnod cyfan pan fo'r cerbyd wedi ei barcio yn y man parcio, a

(ii) yr arddangosir y tocyn talu ac arddangos dilys a roddwyd yn y safle perthnasol ar y cerbyd bob amser pan fo'r cerbyd wedi ei barcio.

Dilysrwydd tocynnau talu ac arddangos

32. Nid oes modd trosglwyddo tocyn talu ac arddangos o un cerbyd i'r llall, ac ar ôl ei drosglwyddo, mae'r tocyn talu ac arddangos yn rhoi'r gorau i fod yn ddilys.

33. Dim ond yn y man parcio lle y rhoddwyd y mae tocyn talu ac arddangos yn ddilys. Diffinnir hyn gan gyfeirnod y peiriant tocynnau a leolir yn y man parcio hwnnw a argreffir ar y tocyn talu ac arddangos. Ym mhob achos, dim ond am y cyfnod y gwnaed taliad ar ei gyfer y bydd tocynnau talu ac arddangos yn ddilys.

Diwedd cyfnod parcio

34. Bydd y cyfnod y talwyd y tâl dyddiol ar ei gyfer yn dod i ben:-

(i) pan brynir tocyn talu ac arddangos, pan fo'r amser a ddangosir ar gloc y peiriant tocynnau yn hwyrach na'r amser terfyn a ddangosir ar y tocyn talu ac arddangos a arddangosir, neu

(ii) pan ddefnyddiwyd dull talu cymeradwy arall, pan eir y tu hwnt i'r cyfnod y gwnaed taliad ar ei gyfer ac a gofnodwyd.

Nid oes tocyn talu ac arddangos a arddangosir

35. Os ar unrhyw adeg pan fo cerbyd wedi ei barcio mewn man parcio na ddangosir tocyn talu ac arddangos ar y cerbyd hwnnw yn y safle perthnasol ac yn unol â darpariaethau y gorchymyn hwn, bernir nad yw'r tâl wedi ei dalu oni bai bod dull talu cymeradwy arall wedi ei ddefnyddio sy'n dal i fod yn ddilys.

36. Os, pan fo cerbyd wedi ei barcio yn ystod yr oriau taladwy mewn man parcio ac nad yw'r peiriant tocynnau agosaf yn y man parcio hwnnw yn gweithio, yna bydd rhaid caffael tocyn o beiriant tocynnau arall yn yr un man parcio (pan y'i darperir) neu fel y cyfarwyddir yn y man parcio.

37. Pan na ellir caffael tocyn talu ac arddangos dilys o beiriant tocynnau mewn man parcio, ceir parcio cerbydau mewn man parcio, ond ni cheir eu parcio am fwy o amser na'r cyfnod parcio hwyaf yn y man parcio hwnnw fel yr hysbysebir yn y man parcio.

Trwyddedau Parcio Halo

38. Mae trwyddedau parcio ar gael gan Halo am y ffi briodol, ar gyfer cerbyd o ddosbarth penodol ac ar gyfer man parcio penodol yn unol â'r amodau a bennir gan y Cyngor.

39. Dim ond ar gyfer y man(nau) parcio y'i cyflwynwyd ar eu cyfer y mae trwydded parcio yn ddilys, ar gyfer y cerbyd y'i cyflwynwyd mewn cysylltiad ag ef a hyd at y dyddiad a ddangosir ar y drwydded parcio.

40. Bydd y gyrrwr yn cadw at y telerau a nodir gan y Cyngor neu Halo ar gyfer defnyddio'r drwydded barcio.

Arddangos trwydded barcio

41. Ac eithrio Erthygl 45, bydd trwydded barcio yn cael ei harddangos yn y safle perthnasol ar y cerbyd y'i cyflwynwyd mewn cysylltiad ag ef bob amser pan fo'r cerbyd wedi ei barcio yn y man parcio.

Cyfyngu ar symud

42. Pan fydd tocyn talu ac arddangos neu drwydded barcio wedi ei harddangos ar gerbyd yn y safle perthnasol, ni fydd neb yn symud y tocyn talu ac arddangos neu'r drwydded barcio o'r cerbyd nes bod y cerbyd wedi gadael y man parcio.

## RHAN 4
## ESEMPTIADAU

Esemptiad rhag tâl dyddiol

43. Ni fydd unrhyw dâl dyddiol yn daladwy mewn cysylltiad ag;
   (i) Cerbyd pobl anabl sy'n arddangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl dilys ar yr amod bod y cerbyd yn syth cyn neu ar ôl y weithred o barcio wedi ei ddefnyddio neu ar fin cael ei ddefnyddio gan yr unigolyn/unigolion y cyflwynwyd y bathodyn mewn cysylltiad ag ef/nhw.
   (ii) Beic modur.
   (iii) Cerbyd sydd wedi ei barcio sy'n arddangos mewn safle perthnasol drwydded parcio sy'n ddilys ar gyfer y man parcio hwnnw.

Absenoldeb peiriant Tocynnau

44. Os, ar yr adeg pan fo cerbyd yn cael ei barcio mewn man parcio yn ystod yr oriau taladwy, nad oes peiriant tocynnau yn y man parcio, neu os oes hysbysiadau ar yr holl beiriannau tocynnau yn y man parcio hwnnw a roddwyd arnynt gan rywun sydd wedi ei awdurdodi'n briodol gan y Cyngor yn nodi nad ydynt yn gweithio, bydd gyrrwr y cerbyd hwnnw wedi ei esemptio rhag prynu tocyn talu ac arddangos.

Taliad drwy ddull talu cymeradwy arall

45. Pan fo trefniadau i dalu'r tâl dyddiol wedi eu gwneud drwy ddull talu cymeradwy arall ac nad oes tocyn talu ac arddangos yn cael ei gynhyrchu drwy ddilyn y broses, bydd gyrrwr cerbyd wedi ei esemptio rhag y gofyniad i arddangos tocyn o'r fath.

## RHAN 5
## ADLEOLI, SYMUD A GWAREDU CERBYDAU

Argyfyngau

46. Caiff unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg, gan ddefnyddio unrhyw fesurau sy'n briodol, mewn achos o argyfwng, symud unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio mewn man parcio, neu achosi i gerbyd o'r fath gael ei symud, i unrhyw le y mae'n credu sy'n addas.

Tramgwyddau mewn man lle bo parcio wedi ei atal

47. Caiff unigolyn awdurdodedig, gan ddefnyddio mesurau o'r fath fel y bo'n briodol, symud unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio mewn man parcio sydd wedi ei gau neu ei atal gan y Cyngor yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu achosi i gerbyd o'r fath gael ei symud, i unrhyw le y mae'n credu sy'n addas, a pherchennog y cerbyd fydd yn gyfrifol am y gost o'i symud neu o gael gwared arno ac o'i gadw diogel.

Cadw yn ddiogel

48. Bydd unrhyw unigolyn sy'n symud cerbyd o fan parcio o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gwneud trefniadau o'r fath fel y bo'n rhesymol angenrheidiol i ddarparu ar gyfer cadw'r cerbyd yn ddiogel.

Gwaredu cerbydau sydd wedi eu gadael mewn mannau parcio

49. Caiff y Cyngor werthu neu waredu fel arall, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, gerbyd sydd wedi ei symud o fan parcio neu a allai gael ei symud o fan parcio ar unrhyw adeg os yw'n ymddangos bod y cerbyd wedi ei adael.

## RHAN 6

## TRAMGWYDDO A THÂL COSB

Tramgwydd

50. Ac eithrio'r darpariaethau yn Rhan 7, os yw cerbyd wedi ei barcio mewn man parcio heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, bydd tramgwydd wedi digwydd, a bydd tâl cosb yn daladwy. Yna ceir cyflwyno hysbysiad tâl cosb a/neu ceir symud y cerbyd o'i leoliad. Bydd yr holl gamau gorfodi yn unol â deddfwriaeth a diwygiadau dilynol.

Cyfyngu ar hysbysiadau symud

51. Ni fydd unrhyw hysbysiad, gan gynnwys hysbysiad tâl cosb, a roddir ar gerbyd yn unol â'r Gorchymyn hwn yn cael ei symud ac nid ymyrrir ag ef ac eithrio gan, neu o dan awdurdod:
    (i) y Perchennog, neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y cerbyd.
    (ii) y Cyngor ar gyfer y man parcio lle doed o hyd i'r cerbyd dan sylw.

Arwyddion fel tystiolaeth

52. Bydd y manylion a gynhwysir mewn unrhyw hysbysiad a roddir ar gerbyd yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn yn cael eu trin fel tystiolaeth mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â methiant i dalu'r tâl cosb.

## RHAN 7

## ATEBOLRWYDD A DARPARIAETHAU ERAILL

Atebolrwydd

53. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i gerbydau neu eiddo arall a adewir yn unrhyw un o'r mannau parcio y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt ac eithrio yr hyn sy'n deillio o esgeulustod y Cyngor.

Dilysrwydd

54. Os yw llys, yr Adran Drafnidiaeth, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol neu'r Gwasanaeth Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

Gyrru mewn man parcio

55. Pan, mewn man parcio, fod arwyddion wedi eu codi, neu fod marciau wyneb yn cael eu gosod at ddibenion

(i) nodi mynedfa neu allanfa y man parcio, neu

(ii) nodi y bydd cerbyd sy'n defnyddio'r man parcio yn mynd ymlaen mewn cyfeiriad penodol yn y man parcio,

bydd unrhyw un sy'n gyrru neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru

(i) fel ei fod yn mynd i mewn i'r man parcio heblaw drwy fynedfa neu yn gadael y man parcio heblaw drwy allanfa, fel y nodir, neu

(ii) mewn cyfeiriad heblaw'r hyn a nodir yn agored i gael ei erlyn.

56. Bydd unrhyw un sydd, heb ganiatâd unigolyn a awdurdodir gan y Cyngor yn y cyswllt hwnnw, yn gyrru unrhyw gerbyd neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru mewn man parcio at unrhyw ddiben ac eithrio er mwyn gadael y cerbyd hwnnw yn y man parcio yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn neu at ddiben gadael y man parcio yn agored i gael ei erlyn.

Difrod bwriadol

57. Bydd unrhyw un, â bwriad o dwyllo, yn ymyrryd â pheiriant tocynnau neu'n gweithredu neu'n ceisio ei weithredu drwy roi gwrthrychau heblaw darnau arian nad ydynt wedi eu difrodi neu eu newid sydd o dendr cyfreithiol a'r enwad priodol, yn agored i erlyniad.

58. Ni fydd neb yn achosi difrod i unrhyw gyfarpar, gosodiadau arwyddo neu oleuo neu osodiadau eraill y Cyngor yn y man parcio nac i unrhyw ran o wead y man parcio a bydd unrhyw un sy'n gwneud hynny yn agored i gael ei erlyn.

Dibenion domestig

59. Ac eithrio Erthygl 25 i'r Gorchymyn hwn mewn cysylltiad ag adran (i) o'r Erthygl hon, bydd unrhyw un sy'n defnyddio unrhyw ran o'r man parcio neu unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio mewn man parcio

(i) ar gyfer cysgu neu fwyta neu wersyllu neu goginio, neu

(ii) at ddibenion gwasanaethu neu olchi unrhyw gerbyd neu ran ohono ac eithrio'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn galluogi'r cerbyd i adael y man parcio, neu

(iii) ar gyfer chwarae neu gymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu hamdden yn y man parcio, neu

(iv) at ddibenion addysgu gyrwyr sy'n dysgu, yn agored i gael ei erlyn.

<u>Ymddygiad</u>

60. Bydd unrhyw un sy'n canu'n fwriadol unrhyw gorn neu unrhyw offeryn tebyg arall ar gerbyd ac eithrio pan ei fod ar fin newid safle'r cerbyd yn y man parcio neu adael y man parcio yn agored i gael ei erlyn.

61. Bydd unrhyw un mewn man parcio sy'n gweiddi neu'n gwneud unrhyw sŵn uchel fel arall sy'n aflonyddu neu'n cythruddo defnyddwyr y man parcio neu breswylwyr neu fangreoedd yn y gymdogaeth yn agored i gael ei erlyn.

62. Bydd unrhyw un mewn man parcio sy'n defnyddio unrhyw iaith, ystum neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus â'r bwriad o godi ofn ar unrhyw un neu er mwyn torri'r heddwch neu lle mae achos o dorri'r heddwch yn debygol o ddigwydd yn agored i gael ei erlyn.

<u>Gweithgareddau eraill</u>

63. Bydd unrhyw un mewn man parcio sydd

(i) yn codi unrhyw sgip, pabell, bwth, stondin, adeilad neu strwythur arall, neu'n achosi neu'n caniatáu i unrhyw un o'r rhain gael eu codi, heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor, neu

(ii) yn cynnau unrhyw dân, neu'n achosi i unrhyw dân gael ei gynnau,

(iii) yn cynnal gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â pharcio cerbyd yn y man parcio o dan delerau defnyddio’r man parcio

yn agored i gael ei erlyn.

## RHAN 8

## DIRYMIADAU

Dirymiadau

64. Mae’r holl Orchmynion mannau parcio oddi ar y stryd a wnaed gan y Cyngor a’u holl ddiwygiadau ac unrhyw Orchmynion a Rheoliadau eraill o ba bynnag natur sy’n ymwneud â mannau parcio oddi ar y stryd yn ardal y Cyngor a wnaed cyn cyflwyno’r Gorchymyn hwn yn cael eu dirymu drwy hyn.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** )
**yma ym mhresenoldeb:–**

**Llofnodwr Awdurdodedig:**

**Dyddiedig y** 19th **diwrnod o** November **2024**

Dyma Atodlen 1 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024.

## ATODLEN 1—MANNAU PARCIO TALADWY

| Enw Man Parcio a Rhif Cynllun | Safle lle caiff cerbydau aros | Cerbyd awdurdodedig. Dosbarthiadau o gerbydau y ceir eu parcio yn y Man Parcio | Diwrnodau ac oriau gweithredu rheolaethau yn y Man Parcio | Y cyfnod hwyaf y caiff y cerbydau aros yn y Man Parcio |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| **Heol Tremains, Maes Parcio, Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun T1784-04** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o'r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy'n fwy na 3.5 tunnell. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm | 24 awr |
| **Maes Parcio'r Neuadd Fowlio, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun T1784-05A** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o'r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy'n fwy na 3.5 tunnell. | Dydd Llun i ddydd Sul 8am i 7pm<br><br>Maes parcio ar gau:–<br>Dydd Llun i ddydd Sul 7pm i 7am | 24 awr |
| **Maes Parcio'r Pwll Hamdden, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun T1784-05A** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o'r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy'n fwy na 3.5 tunnell. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm | 24 awr |
| **Maes Parcio Brackla Rhif 3, Stryd Brackla, Pen-y-bont ar Ogwr. Cynllun T1784-02** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o'r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy'n fwy na 3.5 tunnell. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm | 24 awr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gan unigolyn awdurdodedig. | | | |
| **Maes Parcio Aml-lawr Rhiw, Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun T1784-03** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 2.5 tunnell. | Pob dydd<br>8am i 7pm<br><br>Maes parcio ar gau:–<br>Pob dydd<br>7pm i 7am | 24 awr |
| **Maes Parcio Heol Tondu, (Lôn y Bragdy), Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4JE Cynllun T1784-06** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 3.5 tunnell. | Pob dydd<br>8am i 6pm | 24 awr |
| **Meysydd Parcio Gogledd a De Hillsboro Place, The Portway, Porthcawl CF36 Cynllun T1784-07** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 3.5 tunnell. | Pob Dydd<br>8am–6pm<br>1 Ionawr i 30 Medi<br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>8am–6pm<br>1 Hydref i 31 Mawrth | 24 awr |
| **Maes Parcio John Street, Porthcawl Cynllun T1784-08** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 3.5 tunnell. | Pob Dydd<br>8am–6pm<br>1 Ionawr i 30 Medi<br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>8am–6pm<br>1 Hydref i 31 Mawrth | 24 awr |
| **Maes Parcio Rest Bay, Porthcawl Cynllun T1784-09** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 3.5 tunnell. | Pob dydd<br><br>Haf<br>1 Ionawr i 30 Medi<br>8am i 9pm<br><br>Gaeaf<br>1 Hydref i 31 | 24 awr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | awdurdodedig. | | Mawrth<br>8am i 6pm<br><br>Maes parcio ar gau:–<br>Haf<br>1 Ionawr i 30 Medi 9pm i 7am<br>Gaeaf<br>1 Hydref i 31 Mawrth<br>6pm i 7am | |
| **Maes Parcio’r Ganolfan Hamdden, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr**<br>**CF31 4AH**<br>**CYNLLUN Rhif T1784-05A** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 3.5 tunnell. | Pob dydd<br>10am i 4pm | 24 awr |
| **Maes Parcio Salt Lake, Coney Beach, Promenâd y Dwyrain, Porthcawl.**<br>**CF36 5TS**<br>**Cynllun Rhif PC1_121218/3** | Mewn cilfach barcio yn gyfan gwbl lle mae cilfachau o’r fath wedi eu marcio neu fel y cyfarwyddir gan unigolyn awdurdodedig. | Pob dosbarth ac eithrio cerbydau â phwysau gros gyda llwyth sy’n fwy na 3.5 tunnell. | Pob dydd<br>8am i 9pm | 24 awr |

Dyma Atodlen 2 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024

## ATODLEN 2—TABL TARIFFAU MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD

| Enw Man Parcio a rhif Cynllun | Cyfnod Taladwy (dyddiau ac oriau pan godir taliadau) | Graddfa y Taliadau |
|---|---|---|
| **1** | **2** | **3** |
| **POB UN** ac eithrio meysydd parcio Rest Bay a Salt Lake. | Diwrnod Nadolig | Di-dâl |
| **Heol Tremains, Maes Parcio, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1DP Cynllun T1784-04** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm<br><br><br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Gwener<br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn | 0-1 awr – £1.00<br>1–3 awr – £1.50<br>3 awr a mwy – £3.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £48<br>Fesul Chwarter £126<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £57.60<br>Fesul Chwarter £151.20 |
| **Maes Parcio'r Neuadd Fowlio, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AH Cynllun T1784-05A** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Gwener<br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn | 0-1 awr – £1.00<br>1–3 awr – £1.50<br>3 awr a mwy – £3.00<br><br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl<br><br>Codir Tâl Rhyddhau pan fo maes parcio wedi cau<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £48<br>Fesul Chwarter £126<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £57.60<br>Fesul Chwarter £151.20 |
| **Maes Parcio'r Pwll Hamdden, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr. CF31 4AH** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm | 0-1 awr – £1.00<br>1–3 awr – £1.50<br>3 awr a mwy – £3.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllun T1784-05A** | Dydd Llun i ddydd Gwener<br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn | Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £48<br>Fesul Chwarter £126<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £57.60<br>Fesul Chwarter £151.20 |
| **Maes Parcio Brackla Rhif 3, Stryd Brackla, Pen-y-bont ar Ogwr. CF31 1BZ Cynllun T1784-02** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>8am i 6pm | 0–1/2 awr 50c<br>½ awr–1 awr £1.00<br>1–2 awr £1.50<br>2–3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl |
| **Maes Parcio Aml-lawr Rhiw, Pen-y-bont ar Ogwr. CF31 1DP Cynllun T1784-03** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>8am i 7pm | 0–1/2 awr 50c<br>½ awr–1 awr £1.00<br>1–2 awr £1.50<br>2–3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl<br><br>Codir Tâl Rhyddhau pan fo maes parcio wedi cau |
| **Maes Parcio Heol Tondu (Lôn y Bragdy), Heol Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr (Clwb Rygbi Pen-y-bont ar Ogwr), CF31 4JE Cynllun T1784-06** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>8am i 6pm<br><br><br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Gwener<br><br><br><br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn | 0-1 awr – £1.00<br>1–3 awr – £1.50<br>3 awr a mwy – £3.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £48<br>Fesul Chwarter £126<br><br>Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £57.60<br>Fesul Chwarter £151.20 |
| **Meysydd Parcio Gogledd a De Hillsboro Place, Porthcawl CF36** | Pob Dydd<br>1 Ionawr i 30 Medi<br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>1 Hydref i 31 Mawrth | 0-1 awr – £1.00<br>1–3 awr – £1.50<br>3 awr a mwy – £3.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllun T1784-07** | 1 Ionawr i 30 Medi<br>Dydd Llun i ddydd Gwener<br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>Dydd Llun i ddydd Sul<br><br>1 Hydref i 31 Mawrth<br>Dydd Llun i ddydd Gwener<br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn | Tocynnau Tymor<br>Fesul 4 wythnos £48.00 Fesul Chwarter £126.00<br>Fesul 4 wythnos £57.60 Fesul Chwarter £151.20<br>Fesul 4 wythnos £57.60 Fesul Chwarter £151.20<br><br><br>Fesul 4 wythnos £48.00 Fesul Chwarter £126.00<br>Fesul 4 wythnos £57.60 Fesul Chwarter £151.20 |
| **Maes Parcio John Street, Porthcawl CF36 3YA Cynllun T1784-08** | Pob Dydd<br>1 Ionawr i 30 Medi<br>Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>1 Hydref i 31 Mawrth | 0–1/2 awr 50c<br>½ awr–1 awr £1.00<br>1–2 awr £1.50<br>2–3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl |
| **Maes Parcio Rest Bay, Locks Common Road, Porthcawl CF36 3UP Cynllun Rhif T1784-09** | Pob dydd<br>1 Ionawr i 30 Medi<br>8am i 9pm<br><br><br>1 Hydref i 31 Mawrth 8am i 6pm<br><br><br><br><br><br><br>1 Ionawr i 30 Medi<br>1 Hydref i 31 Mawrth<br>1 Ionawr i 30 Medi | 0-1 awr – £1.00<br>1–2 awr – £2.00<br>2–3 awr – £3.00<br>Drwy'r dydd £4.00<br><br>Drwy'r dydd £1.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl<br><br>Codir Tâl Rhyddhau pan fo maes parcio wedi cau<br><br>Tocynnau Tymor<br>£90.00<br>£40.00<br>£110.00 |
| **Maes Parcio'r Ganolfan Hamdden, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AH Cynllun Rhif T1784-05A** | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>10am i 4pm | 0-2 awr – £1.00<br>1–3 awr – £3.00<br>3–4 awr – £5.00<br>4 awr a mwy – £7.00<br><br>Deiliaid Bathodyn Glas – dim tâl<br>Beiciau modur – dim tâl<br>Deiliaid trwydded Halo – dim tâl |
| **Maes Parcio Salt Lake, Coney Beach,** | Pob dydd<br>8am i 9pm | 0-2 oriau – £2.00<br>Drwy'r dydd – £5.00 |

| | | |
|---|---|---|
| **Promenâd y Dwyrain, Porthcawl. CF36 5TS Cynllun Rhif PC1_121218/3** | | |

Dyma Atodlen 3 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024.

## ATODLEN 3—CYNLLUNIAU MANNAU PARCIO

### Y Cynlluniau